**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifiad o Fwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006**

1. Bu'r Pwyllgor yn pwyso a mesur y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2006. Cawsant eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle y mae Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau y maent am eu gwneud i'r Rheoliadau.

2. Ni chyflwynwyd unrhyw welliannau ymlaen llaw, ond cyflwynwyd pum pwynt o eglurhad. Ymatebodd y Gweinidog fel ag a nodir isod.

**Helen Mary Jones AC:**
i. Beth yw gwerth y talebau o dan y Cynllun Bwyd Lles presennol, a pha fwydydd sydd ar gael?
**Ymateb:**
Nid oes i'r talebau werth ariannol; cânt eu cyfnewid am eitemau bwyd.

ii. A wnaiff y Gweinidog egluro sut y caiff bwydo o'r fron ei hyrwyddo o dan y cynllun newydd?
**Ymateb:**
Caiff ei hyrwyddo gan y gwasanaethau mamolaeth, gan gynnwys bydwragedd. Ni fydd llaeth powdwr babanod yn cael ei hyrwyddo i'r un graddau.

iii. Beth yw maint y gyllideb ar gyfer y Cynllun Bwyd Lles presennol, a beth fydd maint y gyllideb ar gyfer y Cynllun Cychwyn Iach newydd, a sut y bydd y gyllideb yn cynyddu mewn blynyddoedd i ddod?
**Ymateb:**
Ni fydd unrhyw newid sylfaenol i'r gyllideb bresennol o £9 miliwn.

iv. Faint o bobl yr ydych yn disgwyl y byddant yn manteisio ar y cynllun?
**Ymateb:**
O roi dewis ehangach o fwydydd a llai o bwyslais ar laeth, y gobaith yw denu mwy o bobl i fanteisio ar y cynllun. Yr Adran Iechyd sy'n bennaf gyfrifol am weinyddu'r cynllun ac mae disgwyl iddi hyrwyddo'r cynllun yn y wasg, gan dargedu gwerthwyr bwyd, gan gynnwys y siopau cadwyn llai a chwmnïau cydweithredol.

**Jenny Randerson AC:**

v. Pam fod y terfyn oed i blant wedi'i ostwng o bum mlwydd oed i bedair blwydd oed, a hynny er mwyn cael talebau o dan y cynllun hwn?
**Ymateb:**
Gosodwyd y terfyn oed gan yr Adran Iechyd ac nid oes gan y Cynulliad bwerau i'w amrywio. Mae nifer o blant bellach wedi dechrau yn yr ysgol erbyn iddynt fod yn bedair oed.

3. Wrth ymateb i gwestiwn gan Lynne Neagle AC, dywedodd y Gweinidog y gallai £2.80 brynu amrywiaeth helaeth o ffrwythau a llysiau, yn enwedig trwy gwmni bwyd cydweithredol. Mae'r gyfradd uwch ym mlwyddyn gyntaf baban yn cynnwys anghenion y fam. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y ffordd y cafodd y cyfraddau eu pennu.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r rheoliadau fel ag y'u drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Medi 2006